

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 25 CHWEFROR 2019 YN YSTAFELL CYDWELI, GWESTY'R MERCURE HOTEL, CAERDYDD (11:00 – 13:00)

Aelodau CFFDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru: Derwyn Owen
Carwyn Rees

Cynrychiolydd Deloitte: Clare Skivens

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru: Lisa James

Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru: Sean Gaffney

Swyddogion CFFDLC: Shereen Williams (Prif Weithredwr), Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Derwyn Owen, Carwyn Rees, Clare Skivens, Shereen Williams a Sean Gaffney, a oedd yn bresennol yn y Pwyllgor am y tro cyntaf.

1. Ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Jones (Swyddfa Archwilio Cymru), Ian Howse (Deloitte) a Lauren Parsons (Deloitte).

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018.

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y pwyllgor fod sawl mater yn weddill o hyd ar ôl y cyfarfod blaenorol.

4.2 Nodwyd bod Deloitte wedi meincnodi costau prydles adeilad newydd CFFDLC ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn cynnig gwerth da am arian.

4.3 O ran y trefniadau ar gyfer adolygu archwilio mewnol yn allanol o bryd i'w gilydd, crybwyllwyd bod Ian Howse o Deloitte wedi rhoi canfyddiadau'r adolygiad i'r Rheolwr Cyllid, a ddosbarthodd gopi ohonynt i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlygu rhai meysydd i'w gwella a fyddai'n cael eu hystyried gan Deloitte.

- 4.4 Roedd ymateb yn cael ei ddisgwyl gan Lywodraeth Cymru o hyd mewn perthynas â'r adroddiad archwilio mewnol TG, y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt ar gyfer 2017-18. Nodwyd na fyddai'r rhain yn cael eu llunio tan ar ôl 31 Mawrth. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn gofyn am yr adroddiadau gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019-20.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019
- 4.5 O ran archwilio system TGCh newydd y Comisiwn, **cytunwyd** y byddai'r adroddiad archwilio'n cael ei gyflwyno naill ai i gyfarfod y Comisiwn neu gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, gan ddibynnu ar ba un a gynhelir gyntaf ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.
Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019
- 4.6 Dywedodd Sean Gaffney na fyddai'r adroddiad archwilio mewnol TGCh yn cynnwys crynodeb gweithredol. **Cytunwyd** y byddai'n crynhoi canfyddiadau'r archwiliad ar gyfer y Comisiwn ar ôl cwblhau'r archwiliad.
Gweithredu: Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019
- 4.7 **Cytunwyd** y byddai rhagor o ystyriaeth yn cael ei roi i ba aelod staff y dylid dyrannu'r copi ychwanegol o Sage iddo/iddi yn dilyn canlyniad yr ymarfer gwerthuso swyddi yn ddiweddar.
Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019

5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2018-19

- 5.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith 2018-19, a oedd yn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach.

6. Archwiliad Allanol: Cynllun Archwilio 2019

- 6.1 Esboniodd Derwyn Owen fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2018-19. Roedd yn cynnwys crynodeb o'r cyfrifoldebau a oedd yn ymwneud â thystio bod datganiadau ariannol y Comisiwn yn wir ac yn deg, ac yn cadarnhau rheoleidd-dra gwariant y Comisiwn. Dywedodd fod y Comisiwn yn cael ei ystyried yn gorff risg isel, a thynnodd sylw'r Pwyllgor at Arddangosyn 2, a oedd yn amlygu'r prif risgiau archwilio a all arwain at gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon ac a fyddai'n mynnu ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- Y risg o reolwyr yn gwrthwneud rheolaethau. Yr ymateb archwilio fydd profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu a gwirio trafodion sylweddol;
 - Y risg o ailddosbarthu gwariant oherwydd prosiect TGCh y Comisiwn; a'r
 - Cyfrifyddu ar gyfer prydles Tŷ Hastings ar ôl ei hail-drafod â'r landlord.
- 6.2 Roedd gweddill y cynllun yn amlinellu'r ffi archwilio ar gyfer y flwyddyn, a oedd wedi cynyddu rhywfaint, sef 2.96% o gymharu â'r flwyddyn gynt ar ôl sawl blwyddyn o fod wedi'i rhewi.

6.3 Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys manylion am y tîm archwilio a'r amserlen, a datganiad ar y rhaglen waith y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n ymgymryd ag ef i baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE.

6.4 Roedd Atodiad 2 yn amlinellu newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn y dyfodol sy'n berthnasol i lywodraeth ganolog. Nodwyd mai'r newid a fyddai'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar CFfDLC fyddai IFRS 16 yn ymwneud â'r newid i'r modd y caiff prydlesu gweithredu eu trin wrth gyfrifyddu, a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2020-21. Nododd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio ar gyfer 2019.

7. **Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2018-19**

7.1 Crybwyllodd Clare Skivens fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019 wedi cwmpasu adolygiadau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a CFfDLC, ynghyd â gweithgarwch dilynol ar argymhellion blaenorol. Roedd yr archwiliad wedi arwain at Sgôr Sicrwydd Archwilio Cymedrol oherwydd y 4 argymhelliad archwilio canolig a godwyd. Ystyriodd y Pwyllgor yr argymhellion a godwyd yn yr adroddiad ac ymatebion y rheolwyr. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2019

7.2 Roedd yr argymhellion yn cwmpasu'r diffyg rhestr wirio arolwg ar gyfer arolwg seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru, rhestrau gwirio arolygon CFfDLC heb eu cwblhau'n llawn, yr angen i wirio'r rhestrau gwirio'n fwy cynhwysfawr cyn eu llofnodi, a'r angen i dynhau'r broses sicrhau ansawdd arolygon. Esboniwyd bod y rhestrau gwirio'n anghyflawn gan nad oedd yr holl eitemau'n berthnasol i bob arolwg, a nodwyd bod proses wedi'i sefydlu i swyddogion arolygon gwblhau gwiriad ychwanegol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth ar goll o'r rhestr wirio.

7.3 Roedd yr archwiliad hefyd yn cynnwys gweithgarwch dilynol ar argymhellion blynnyddoedd blaenorol, a oedd wedi canfod bod 4 o'r 7 o argymhellion a oedd yn weddill wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn. Eir i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill o'r archwiliad yn fanylach yn eitem 10 ar yr agenda.

7.4 Roedd Adroddiad Blynnyddol 2017-18 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau, ac yn rhoi sgôr sicrwydd cyffredinol 'Cymedrol' i CFfDLC, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'i berfformiad wrth ymgymryd â'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd y mae'n ei roi, ac roedd o'r farn y dylid gwella'r sgôr Cymedrol y flwyddyn nesaf.

8. **Holiadur Blynnyddol yr Asesiad Archwilio Mewnol 2018-19**

8.1 Cynigiwyd y byddai aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu'n ymgynnull ar ôl y cyfarfod i ystyried a llenwi'r holiadur. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dadansoddi ymatebion yr aelodau ac yn adrodd ar y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019

9. Arolwg o'r Ymatebion i Holiadur Hunansicrwydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 9.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'w holiadur hunanasesu blynyddol, a oedd yn nodi y dangoswyd yr holl arfer da. Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor yn parhau â'r ymarfer hunanasesu bob blwyddyn ac yn ymdrechu i gynnal y safon uchel bresennol o gydymffurfio ag arfer da.

10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.
- 10.2 Erbyn hyn, roedd dau o'r argymhellion a oedd yn weddill yn ymwneud ag arolygon etholiadol CFfDLC, o 2012-13 a 2014-15, wedi'u disodli gan argymhelliad a wnaed fel rhan o archwiliad mewnol y flwyddyn gyfredol.
- 10.3 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2016-17 i gyfyngu ar fynediad at ffolderi Adnoddau Dynol a chyllid electronig wedi'i roi ar waith erbyn hyn.
- 10.4 Roedd yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2016-17 i sefydlu proses fonitro ar gyfer y drefnlen dargadw wedi'i ailgodi, ac roedd camau'n cael eu cymryd i wella'r broses fonitro gyfredol.
- 10.5 Erbyn hyn, mae'r argymhelliad a oedd yn weddill o 2016-17 i'r Comisiwn gael datganiad clir o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r trefniadau TG newydd, wedi'i roi ar waith.
- 10.5 Ystyriwyd yr argymhelliad archwilio allanol sy'n weddill o 2017-18, sef y dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei drefniadau TGCh newydd yn cynnwys rheolaethau cadarn ar gyfer cadw data a chreu copïau wrth gefn. Nodwyd bod yr argymhelliad hwn wedi'i godi cyn cael sicrwydd y byddai system TG newydd y Comisiwn wedi'i seilio ar gwmwl. Dywedodd Derwyn Owen fod angen i'r Comisiwn gael gwybodaeth lawn am sut mae Microsoft yn gweithredu a gwneud yn siŵr fod sicrwydd ar waith. Dywedodd Sean Gaffney fod gan Microsoft sicrwydd a diogelwch da ar gyfer data ar y cwmwl, ac y byddai'n cael manylion am y ganolfan ddata lle mae data'r Comisiwn yn cael ei chadw.
Gweithredu: Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019
- 10.6 O ran yr argymhelliad sy'n weddill o 2017-18, sef y dylid diweddarau Teithio a Chynhaliath y Comisiwn, crybwyllwyd y bu oedi o ran ei roi ar waith, yn amodol ar benderfyniad ar brynu yswiriant teithio. Nodwyd y byddai'r mater yn cael ei godi yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol i benderfynu a fyddai'r Comisiwn yn caffael yswiriant teithio ai peidio.
- 10.7 Erbyn hyn, mae'r argymhelliad o archwiliad mewnol canol blwyddyn 2018-19, sef y dylai'r Comisiwn gynnal a diweddarau rhestr o'i gontractau a'u dyddiadau adnewyddu, wedi'i roi ar waith.
- 10.8 Ystyriwyd yr argymhelliad o archwiliad mewnol diwedd blwyddyn 2018-19 yn gynharach yn y cyfarfod yn eitem 7 ar yr agenda.

11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2017-18

11.1 Ystyriodd y comisiwn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, ac roedd yn **cytuno** ag ef yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Y dylid diwygio paragraff 3.4 y ddangos y cafwyd sgôr sicrwydd Cymedrol ar gyfer yr archwiliad mewnol o arolygon CFfDLC;
- Y dylid ychwanegu testun ychwanegol i baragraff 3.4 i esbonio bod y sgôr sicrwydd Cymedrol yn cyfeirio at brosesau'r arolygon yn hytrach na'r arolygon eu hunain;
- Y dylid ychwanegu testun ychwanegol at baragraff 3.4 i esbonio bod y sgôr sicrwydd Cymedrol yn deillio o'r ffaith mai hwn oedd arolwg cyntaf y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ac y byddai CFfDLC yn cymryd camau i wella'r sgôr sicrwydd Cymedrol;
- Y dylid ychwanegu eitemau ychwanegol at baragraff 5.1 i gynnwys:
 - Adroddiadau diogelwch TGCh Cymwysterau Cymru;
 - Sicrwydd Deloitte fod prydles newydd CFfDLC yn cynrychioli gwerth da am arian;
 - Yr archwiliad allanol annibynnol o drefniadau archwilio mewnol CFfDLC; ac
 - Ystyriaeth CFfDLC o Brexit fel rhan o'i brosesau rheoli risg.
- Mân newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg;
- Y dylid ychwanegu cyfeiriad at adroddiadau diogelwch TGCh Cymwysterau Cymru a LIC at y rhestr sicrwydd yn Atodiad 2.

11.2 **Cytunwyd** ar yr adroddiad yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2018-19

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Drafft. Ystyriwyd y dylid ychwanegu testun ychwanegol yn esbonio'r amgylchiadau yn ymwneud â'r sgôr sicrwydd archwilio mewnol Cymedrol ar gyfer arolygon CFfDLC.

12.2 **Cytunwyd** y byddai'r Datganiad Llywodraethu Diwygiedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Mawrth.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 26 Mawrth 2019

13. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC

13.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg pensiynau CFfDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers iddi ers yr adolygiad diwethaf.

14. Cofrestr Risg TGCh CFfDLC

14.1 Nododd y Pwyllgor gofrestr risg TGCh newydd CFfDLC, a ddrafftwyd â chymorth gan Cymwysterau Cymru. Ystyriwyd y dylai'r gofrestr risg ystyried y gofyniad i gadw rhywfaint o galedwedd oddi ar y safle, a chefnogaeth a chymorth gan Microsoft. Cytunwyd y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Parhad Busnes nesaf a gynhelir ym mis Mai.

15. Polisi Methdalau ac Ansoffedd CFfDLC

- 15.1 Crybwyllwyd bod CFfDLC wedi adolygu ei Bolisi Methdalau ac Ansoffedd yn ddiweddar ac wedi gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r polisi, gan ei fod yn cynnwys testun newydd yn rhoi cyfrifoldeb i'r Pwyllgor i ddod ynghlwm os oes unrhyw amheuaeth y bu cyllid cyhoeddus ynghlwm wrth y methdalau yr ymdrinnir ag ef.
- 15.2 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chynnwys Polisi Methdalau ac Ansoffedd CFfDLC, a chynigiodd y dylai CFfDLC ei fabwysiadu.

16. Adroddiad Rheoli Risg

- 16.1 Nododd y pwyllgor y cofrestrï a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrï risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
- 16.2 Crybwyllwyd bod Risg Corfforaethol CR6 yn debygol o gael ei dileu gan CFfDLC yn ei gyfarfod nesaf, ar ôl cadarnhau prydles yr adeilad.
- 16.3 Ystyriwyd y dylai Risg Gweithredol OP4 gynnwys cam lliniaru ychwanegol yn ymwneud â'r cymorth technegol a fyddai'n cael ei roi gan Microsoft pe byddai problem o ran data.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019
- 16.4 Ystyriwyd y dylid adolygu Risg Gweithredol OP16 yn sgil y canfyddiadau archwilio mewnol diweddar.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2019

17. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 17.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 29 Ionawr 2019. Nodwyd bod y Comisiwn wedi ildio £20,000 o gymorth grant i Lywodraeth Cymru yn sgil y tanwariant amcangyfrifedig.

18. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 18.1 Nododd y Pwyllgor y datganiadau o roddion a lletygarwch a wnaed ar gyfer 2019-19 hyd yn hyn, a oedd yn cynnwys cynigion o letygarwch a gofnodwyd ar ôl y cyfarfod Rhyng-gomisiynol a gynhaliwyd yng Nghaeredin.

19. Cwynion

- 19.1 Nododd y Pwyllgor na chofnodwyd unrhyw gwynion ers yr adroddiad diwethaf.

20. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll

- 20.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw enghreifftiau o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

21. Adroddiad ar Ddiogelwch Data a TGCh

- 21.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.
- 21.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad Diogelwch TGCh newydd. Dywedodd na chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth sylweddol ar gyfer y system TGCh newydd ers iddi gael ei rhoi ar waith. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at y rhestr o seiberymosodiadau diweddar ar sefydliadau amrywiol, ac esboniodd mai bwriad hyn oedd codi ymwybyddiaeth o'r bygythiadau sy'n cael eu datgelu yn y gymuned TG ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos bod holl gyfrifiaduron CFfDLC yn derbyn y diweddariadau cyfredol i systemau a diogelwch.
- 21.3 Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Diogelwch TGCh

22. Unrhyw fater arall

- 22.1 Nid oedd unrhyw fater arall

23. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- 23.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Dydd Mercher 31 Gorffennaf 2019
Dydd Mercher 27 Tachwedd 2019
Dydd Llun 24 Chwefror 2020

- 23.2 Cytunwyd y byddai cadarnhad o'r dyddiadau hyn yn cael ei anfon at aelodau drwy'r e-bost.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 1 Ebrill 2019